**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 16 Medi 2020 am 1.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P R Hood-Williams (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | Y V Jardine |
| S M Jones | D W W Thomas | E T Kirchner |
| W G Lewis | | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Elliott King | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant |
| Sam Pritchard | Aelod y Cabinet - Gwasanaethau Plant |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Julie Thomas | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): K M Griffiths a/ac P K Jones
Hefyd yn bresennol: J Davies a D Howes

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

2 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol**

Ystyriodd y Panel lythyrau a chofnodion o gyfarfodydd blaenorol a chytunodd fod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Chwefror a 24 Chwefror 2020 yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

4 **Cwestiynau Gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd.

5 **Diweddariad i Wasanaethau Penodol am Bandemig Covid-19**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet yr eitem gan ddweud ei bod wedi bod yn sefyllfa ddigynsail a bod perthynas waith agos wedi bod gyda'r Bwrdd Iechyd ac yn fewnol gyda'r adran Addysg.  Dywedodd eu bod yn hynod falch o'r hyn y mae'r gwasanaeth wedi'i gyflawni a bod hyn o ganlyniad i'r staff. Yna rhoddodd Julie Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r panel am effeithiau'r pandemig gan gynnwys effeithiau, gweithgareddau, heriau ac adferiad.

Pwyntiau i'w trafod:

- Mae Cynllun Adfer/Addasu ar waith.
- O ran perfformiad, mae'r prif ffigurau'n sefydlog er bod lefel o weithgarwch amddiffyn plant ac mae'r 'drws ffrynt' y gwasanaeth yn brysur, ond mae'n dargyfeirio mwy o achosion.
- Mae angen canolbwyntio ar asesu, arwyddion matrics 'Signs of Safety' a chynlluniau gofal a chymorth.
- Mae'n annhebygol y bydd y gwasanaeth yn gweithredu fel yr oedd cyn COVID. Bydd yr hyn a ddysgwyd yn cael ei ddefnyddio i gryfhau'r gwasanaeth yn y dyfodol.
- Mynegodd y panel ei werthfawrogiad o'r staff sy'n gweithio mewn sefyllfa anodd iawn ac sydd wedi addasu'r gwasanaeth i fodloni gofynion mor gyflym.
- Mae'r panel yn teimlo bod llwyddiant y gwasanaeth wedi bod oherwydd y gwasanaeth wyneb yn wyneb ar y rheng flaen ac ni all hyn ddigwydd drwy weithio gartref.  Felly, mae'n bwysig dal y ddysgl yn wastad.
- Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn falch iawn o staff ym mhob rhan o'r gwasanaeth, sydd wedi bod yn eithriadol.
- Pwynt 2.6 y Cynllun Addasu – Mae'r panel yn teimlo bod hyn yn bwysig iawn. Hysbyswyd bod y gwasanaeth yn pryderu am gynhyrchu gwaith S'igns of Safety' ond maent yn dal i allu gwneud hyn o bell ac wyneb yn wyneb. Maent dri chwarter ffordd drwy'r rhaglen lles staff, sy'n dangos ymrwymiad i staff ac mae'r adeilad wedi'i agor i staff yn wirfoddol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio'n agosach gyda'r Bwrdd Iechyd sy'n rhywbeth cadarnhaol.
- Tudalen 14 o'r Cynllun Addasu – Wyneb yn wyneb rhwng staff a'r cyhoedd. Roedd y panel yn bryderus bod gan nifer o feysydd statws coch.  Fe'i hysbyswyd, ar wahân i un maes, fod pethau wedi symud ymlaen ers i'r adroddiad hwn gael ei lunio, ac mae'r gwasanaeth yn delio â'r rhain i gyd.
- Cyfeiriwyd y panel at ddogfen ar Strategaeth Lleihau'n Ddiogel Nifer y Plant a Theuluoedd sy'n Derbyn Gofal.  O edrych ar y manylion mae'n drawiadol iawn. Yn Abertawe gosodir y mwyafrif helaeth o blant sy'n derbyn gofal yn agos i'w cartrefi

Camau Gweithredu:

- Cyflwyniad ar Leihau'n Ddiogel Nifer y Plant a Theuluoedd sy'n Derbyn Gofal i'w ddosbarthu i'r panel er gwybodaeth.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai Julie Thomas yn ymddeol o'r cyngor cyn bo hir. Mynegodd y panel eu diolch am ei holl waith caled ac am bopeth y mae wedi'i gyflawni a dymunwyd ymddeoliad hir a hapus iddi.  Diolchodd Julie Thomas i'r panel am yr holl gefnogaeth y maent wedi'i rhoi iddi.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.05pm.